

## Deunyddiau i gefnogi cyflwyno ac asesu ar gyfer ein cymwysterau

Mae nifer o ddogfennau ar gael i'n cwsmeriaid eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein cymwysterau newydd. Mae'r rhain ar gael ar y wefan o dan y tab Dogfennau Allweddol a Deunyddiau Cwrs ar gyfer pob cymhwyster yn Gymraeg a Saesneg.

Dyma enghreifftiau o'r rhain:

### Manyleb neu Lawlyfr y Cymhwyster

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- Cynnwys y cymhwyster
- Manylion yr hyn y mae angen ei addysgu a'i asesu
- Gwybodaeth am strwythur y cymhwyster
- Gofynion y Ganolfan
- Methodoleg asesu a gall hefyd gynnwys rhywfaint o wybodaeth am weinyddu, yn ogystal â'r unedau eu hunain.

O dan adran Gwybodaeth Ategol yr unedau, mae rhestrau o adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddeddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gynnwys yr uned. Gellir defnyddio'r cynnwys hwn fel deunyddiau ffynhonnell ac arweiniad pellach ar gyfer adnoddau cyflwyno cymwysterau'r ganolfan.

### Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys enghreifftiau o asesu, sydd wedi'u hysgrifennu i'r un lefel o gynnwys ac sy'n seiliedig ar yr un meini prawf â'r asesiadau byw. Gellir eu defnyddio i gyflwyno'r cymwysterau i gefnogi dysgwyr i ddeall lefel y gofynion a ddisgwylir ganddynt i gyflawni eu hasesiadau.

### Pecyn Asesu

Mae'r Pecyn Asesu yn cynnwys trosolwg o'r fethodoleg asesu ar gyfer y cymhwyster cyfan a chanllawiau manwl ar sut i gynllunio a gweithredu'r dulliau asesu. Pwysleisir pwysigrwydd cyfraniad gan y cyflogwyr hefyd yn ogystal ag arfer dda mewn addysgu a dysgu. Mae hefyd yn cynnwys y ffurflenni cofnodi i'w defnyddio. Dylai'r ddogfen hon gael ei defnyddio ar y cyd â'r **Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster**. Mae'r pecyn asesu yn cynnwys briff ymgeisydd i'w roi i'r ymgeisydd pan fydd yn barod i'w asesu fel y gall weithio drwy bob un o'r tasgau asesu.

### Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster

Pwrpas y Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster yw cefnogi aseswyr a rheolwyr i gefnogi ymgeiswyr drwy eu taith ddysgu ac asesu. Gall hyn fod yn ddefnyddiol hefyd i gyflogwyr i godi eu hymwybyddiaeth o'r cymwysterau ac i'w cefnogi i nodi ble y gallan nhw gefnogi dysgu a chyflwyno.

## Canllawiau Addysgu

Prif nodau'r **Canllawiau Addysgu** yw rhoi cefnogaeth i athrawon gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

## Pecyn Adnoddau Asesu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl ffurflenni cofnodi perthnasol ar gyfer y cymhwyster mewn fformat Word.

Mae **Canllawiau i Fyfyrrwyr** yn cael eu datblygu ar gyfer y cymwysterau a nodir isod a byddant ar gael yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2019. Mae'r Canllawiau i Fyfyrrwyr yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth, a fydd yn helpu i roi cyflwyniad trylwyr i'r cymwysterau.

Yr un yw'r sefyllfa ar gyfer Lefel 3 Ymarfer a Theori

Cymhwyster	Manyleb/ Llawlyfr y Cymhwyster	Deunyddiau Asesu Enghreiffiol	Pecyn Asesu	Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster/ Canllawiau Addysgu	Pecyn Adnoddau Asesu	Canllaw i Fyfyrrwyr
TGAU	√	√		√		
GChDDP Craidd	√	√				
L2 GChDDP: Ymarfer	√		√	√	√	√
L2 GChDDP: Ymarfer a Theori	√	√	√	√	√	
L3 GChDDP: Ymarfer	√		√	√	√	√
L3 GChDDP: Ymarfer a Theori	√	√		√	√	
IGC Craidd	√	√				√
L2 IGC: Ymarfer	√		√	√	√	√
L2 IGC: Egwyddorion a Chyd- destunau	√	√				
L3 IGC Oedolion: Ymarfer	√		√	√	√	√
L3 IGC PPhl: Ymarfer	√		√	√	√	√